

CYD-BWYLLGOR DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE

Dydd Iau, 24 Ionawr 2019

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd R. Stewart (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr:

R. Jones, D. Simpson and E. Dole

Aelodau cyfetholedig:

Dr J. Davidson, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Aelod Dirprwy)

Prof A. Davies, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

B. Rees, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

E. Tomp, Cadeirydd Bwrdd Strategaeth Economaidd

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

M. James, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin

S. Phillips, Prif Weithredwr, Cyngor Castell-nedd Port Talbot

I. Westley, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Benfro

M. Nicholls, Cyfarwyddwr Lleuedd, Cyngor Abertawe

C. Moore, Swyddog S.151 Cyd-Bwyllgor

L.R. Jones, Swyddog Monitro Cyd-Bwyllgor

W. Walters, Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi

G. Morgan, Rheolwr Gwasanaethau Democraidaidd

H. Morgan, Rheolwr Datblygu Economaidd

R. Phillips, Rheolwr Ariannu

G. Jones, Swyddog Cyfathrebu a Marchnata (Bargen Ddinesig)

R. Llewellyn, Swyddog Perfformiad, Llywodraethu a Pholisi

A. Miller, Swyddog Technegol Ewropeaidd

J. Laimann, Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd

Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democraidaidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. 2.00 - 3.25 yp


1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan yr Athro Medwin Hughes (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant). Roedd Dr Jane Davidson yn bresennol yn y cyfarfod ar ei ran.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

3. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 14EG RHAGFYR 2018



Dyweddodd y Cadeirydd fod y fersiwn ddiweddaraf o'r cofnodion wedi cael ei dosbarthu a bod newidiadau o'r fersiwn flaenorol mewn print bras.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion diweddaraf cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2018 gan eu bod yn gywir.

4. Y DIWEDDARAF AM BROSIECTAU'R FARGEN DDINESIG


Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad diweddarau ynghylch y prosiectau lleol a rhanbarthol canlynol a ariennir gan y Fargen Ddinesig:

- Seilwaith Digidol;
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau;
- Sgiliau a Thalent;
- Yr Egin;
- Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli;
- Campws Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli;
- Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer;
- Canolfan Ragoriaeth Gwasanaethau y Genhedlaeth Nesaf (CENGS);
- Ffatri'r Dyfodol;
- Gwyddoniaeth Dur;
- Ardal Forol Doc Penfro.

Anogwyd Arweinwyr y Prosiect i roi gwybod am unrhyw heriau o ran cynnydd eu prosiectau er mwyn i'r Cyd-bwyllgor allu cynorthwyo i ddatrys y rhain os oes modd. I gefnogi hyn, awgrymwyd y dylid cyflwyno cofnod materion a chofrestrau risg ar gyfer prosiectau unigol fel eitemau sefydlog ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yn y dyfodol. Gellid cyfuno'r cofrestrau risg prosiectau unigol yng nghofrestr risg y Cyd-bwyllgor.

O ran y prosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer, awgrymwyd y gallai cap ar godiadau rhent a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru effeithio ar un o ffrydiau referniw y prosiect. Ar ôl cael gwybod efallai y bydd y cap ar rent yn bolisi interim, awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n briodol gofyn am eglurhad gan Weinidogion Cymru.

Ar ôl cael gwybod na fyddai Is-ganghellor newydd Prifysgol Abertawe yn dechrau tan fis Gorffennaf 2019, awgrymwyd y dylid anfon llythyr at yr Is-ganghellor dros



(NODER: MAE'R COFNODION HYN YN AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN Y CYD-BWYLLGOR YN EI GYFARFOD NESAF)

dro yn gofyn am sicrwydd bod Prifysgol Abertawe yn dal wedi ymrwymo i'r Fargen Ddinesig a phob prosiect unigol y Fargen Ddinesig.


O ran prosiect Ardal Forol Doc Penfro, dywedodd Awdurdod Arweiniol y Prosiect ei fod yn aros i gael adborth gan Lywodraeth Cymru ynghylch gwybodaeth atodol o ran y fersiwn ddrafft o'r achos busnes llawn. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr Arweiniol ei bod yn hanfodol o ran hyfywedd y prosiect i gael sicrwydd ynghylch trefniadau ariannu gan Lywodraeth Cymru erbyn canol mis Mawrth.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi pryder ynghylch oedi o ran derbyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau'r Fargen Ddinesig a oedd wedi achosi oedi o ran cyflawni'r prosiect ac wedi gwneud pob partner yn agored i elfen o risg ariannol. Dywedodd y Swyddog Atebol fod oedi o'r fath yn rhwystredig, ond ei fod wedi codi'r mater hwn yn ddiweddar mewn cyfarfod â swyddogion a'r gobaith oedd y byddid yn mynd i'r afael â'r oedi parhaus.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o brosiect Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli, dywedodd Swyddog A.151 y Pwyllgor fod y datganiad yn y wasg yn anghywir ac y gofynnwyd i'r gohebydd geisio cael eglurhad gan Swyddfa Archwilio Cymru ond ei fod wedi gwrthod gwneud hynny. Roedd tystiolaeth ddogfennol i gefnogi gohebiaeth y Cyngor gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar gael. O ran craffu ar y prosiect, dywedodd Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor, dan y Cytundeb Cyd-bwyllgor, fod pob awdurdod unigol yn gyfrifol am graffu ar brosiectau unigol. Dywedodd y Cadeirydd fod y Cyd-bwyllgor Craffu wedi estyn gwahoddiad iddo ef a'r Prif Weithredwr roi diweddariad ar yr adolygiad ac roedd wedi cytuno â'r cais hwn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod

- 4.1. Adroddiad diweddar ynghylch y prosiectau yn cael ei dderbyn;**
- 4.2. Cofnodion materion a chofrestrau risg prosiect yn cael eu cynnwys fel eitemau sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yn y dyfodol;**
- 4.3. Llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad ynghylch y cap ar godiadau rhent;**
- 4.4. Llythyr yn cael ei anfon at Is-ganghellor dros dro Prifysgol Abertawe yn gofyn am sicrwydd bod y Brifysgol yn parhau'n ymrwymedig i'r Fargen Ddinesig a phob prosiect unigol;**
- 4.5. Llythyr yn cael ei anfon yn gofyn i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyhoeddi llythyr o eglurhad ynghylch ei gymorth ariannol ar gyfer Ardal Forol Doc Penfro.**



5. CYLCH GORCHWYL AR GYFER ADOLYGIAD MEWNOL Y CYD-BWYLLGOR O'R FARGEN DDINESIG

Rhoddodd y Cyd-bwyllgor ystyriaeth i adroddiad ynghylch y Cylch Gorchwyl a'r Rhaglen derfynol ar gyfer yr adolygiad mewnol o drefniadau llywodraethu Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2018 (gweler cofnod 11). Byddai'r arolwg, dan arweiniad Cyngor Sir Penfro, yn cael ei gefnogi gan Uwch-archwilydd a enwebwyd o Gynghorau Sir Caerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Dywedwyd wrth y Cyd-bwyllgor fod y Cylch Gorchwyl wedi'i strwythuro ar sail saith egwyddor graidd a bod yr holl faterion a godwyd yn flaenorol yn y cyfarfod wedi'u cynnwys yn yr adolygiad.

Pwysleisiwyd ei bod yn galonogol bod y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Mewnol ac Annibynnol i raddau helaeth yn gydnaws ac yn cyd-fynd â'i gilydd. Awgrymodd yr Aelodau y dylai'r Adolygiad Mewnol anelu at ddod i ben tua'r un adeg â'r Adolygiad Annibynnol a gallai canfyddiadau'r ddau adolygiad gael eu nodi mewn un corff o argymhellion. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai Aelodau Cyfetholedig yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL


5.1. Nodi'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Mewnol y Cyd-bwyllgor ynghylch Bargaen Ddinesig Bae Abertawe;

5.2. Cynnwys holl Aelodau'r Cyd-bwyllgor yn yr adolygiad a'r ddogfen Cylch Gorchwyl.

6. ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O FARGEN DDINESIG DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE - CYLCH GORCHWYL

Rhoddodd y Cyd-bwyllgor ystyriaeth i adroddiad ynghylch y Cylch Gorchwyl llawn ar gyfer yr Adroddiad Annibynnol o Fargaen Ddinesig Bae Abertawe yn unol â chyngor Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Nododd yr adroddiad bod y Cyd-bwyllgor a Swyddfa Ranbarthol y Fargaen Ddinesig wedi cael gwybod ar 6 Rhagfyr 2018 fod y ddwy Lywodraeth wedi cytuno i gomisiynu adolygiad annibynnol. Cyhoeddodd y ddwy Lywodraeth eu bod yn asesu'r cynnydd hyd yn hyn er mwyn cael sicrwydd y byddai holl elfennau'r Fargaen yn cyflawni'r buddion economaidd llawn a addawyd gan y Fargaen Ddinesig a bod diwydrwydd dyladwy a threfniadau llywodraethu wedi cael eu dilyn ym mhob elfen o'r Fargaen ac wrth ei rhoi ar waith.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Cylch Gorchwyl Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer eu Hadolygiad Mewnol o Fargaen Ddinesig Bae Abertawe.



7. Y BWRDD STRATEGAETH ECONOMAIDD - AELOD NEWYDD

Rhoddodd y Cyd-bwyllgor ystyriaeth i enwebu Lynne Hamilton i gymryd lle Mr Hamish Laing fel cynrychiolydd gwyddor bywyd / llesiant ar y Bwrdd Strategaeth Economaidd. Dywedwyd wrth y Cyd-bwyllgor fod Mr Laing wedi ymddiswyddo o'i swydd ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a bod y Bwrdd Iechyd wedi enwebu Lynne Hamilton fel y cynrychiolydd yn ei le. Dywedwyd wrth y Cyd-bwyllgor hefyd, dan Gytundeb y Cyd-bwyllgor, fod angen i'r holl gynigion ar gyfer recriwtio ac enwebu aelodau'r Bwrdd Strategaeth Economaidd gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL anfon enwebiad Lynne Hamilton fel cynrychiolydd gwyddor bywyd / llesiant ar y Bwrdd Strategaeth Economaidd at Lywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU i'w ystyried.

8. AMSERLEN CYFARFODYDD Y CYD BWYLLGOR EBRILL 2019 - MAWRTH 2020

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried amserlen arfaethedig o ran y cyfarfodydd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo amserlen cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

CADEIRYDD

DYDDIAD

